

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Rhagfyr 2017

Presennol – Menai Hughes Cadeirydd, Prys Ellis, John D Jones, Maria O Roberts, Guto G Jones, Ieuan Jones, Einion Edwards, Trystan Humphreys, Cyngorydd Sir Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau - Ffuon Williams.

Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 25ain Hydref 2017

Materion yn Codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol, cyfeiriodd y clerc at y sylwadau canlynol ganddynt'

[a] Dwy giât fferm wedi eu dwyn yn yr ardal.

[b] Bod cais i ddwyn arian o'r ATM wrth y Saracens, ond nad oedd wedi bod yn llwyddiannus

[c] Bu llawer o adnoddau'r heddlu o'r tîm plismona ffyrdd, ar yr A5 a hefyd y triongl EVO trwy gydol yr haf.

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.2] Cae Llwyd/ Trafferthion Cwn

Nodwyd y wybodaeth oddiwrth Cyngor BS Conwy y bydd cyfnod o ymgynghoriad yn gyntaf, ynglŷn â gwahardd cwn o'r cae chwarae.

[1.3] Diffibriliwr/Glasfryn

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys

Dywedodd y clerc bod trefniadau wedi ei gwneud i docio'r coed.

[1.5] Datblygiad Fferm Wynt Coedwig Clocaenog

Cyfeiriodd y clerc at y wybodaeth ganlynol oddiwrth cwmni "Innogy"

Bydd cyfanswm o £768,000 yn flynyddol yn y gronfa ond nad oedd penderfyniad ynglŷn â dosbarthu'r arian ayb wedi ei wneud hyd yn hyn.

[1.6] Gwrych Maes Aled

Deallwyd nad oedd y gwrych ddim ond wedi cael ei dorri ar un ochr. Y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

Y brif agenda

[1.7] Polisi Bagiau Tywod

Nodwyd y wybodaeth gan Gyngor BS Conwy.

[a] Na fydd y Cyngor yn darparu bagiau tywod i eiddo preifat na masnachol ar adegau o lifogydd.

[b] Ni fydd y Cyngor yn caniatáu i breswylwyr gasglu bagiau tywod o storffeydd y Cyngor.

[1.8] Amaethwyr Corwen

Mynegwyd pryder bod angen tacluso o flaen yr adeilad yn y llan. Y cler c i anfon gair at Mr Richard P Jones yng Nghorwen.

[1.9] Llwybr gyferbyn a'r Ysgol i Ffordd Cefn Brith

Y cler c i anfon llythyr pellach yn datgan siom nad oedd dim ymdrech yn cael ei wneud gan y Cyngor Sir i ddarparu llwybr cerdded yn y lleoliad uchod.

[2.1] Rhaglen Chwaraeon Gwledig Haf 2017/Cyngor BS Conwy

Penderfynwyd cyfrannu £600.00 tuag at weithgareddau'r haf 2018

[2.2] Cylch Meithrin Cerrigydrudion

Penderfynwyd cyfrannu £200.00 tuag at y Cylch Meithrin

Cadeirydd _____